



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2017 Rhif 933 (Cy. 227) (C. 80)

2017 No. 933 (W. 227) (C. 80)

TIROEDD COMIN, CYMRU

COMMONS, WALES

Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin
2006 (Cychwyn Rhif 5 a
Darpariaethau Trosiannol (Cymru)
a Chychwyn Rhif 4 (Cymru)
(Diwygio)) 2017

The Commons Act 2006
(Commencement No. 5 and
Transitional Provisions (Wales) and
Commencement No. 4 (Wales)
(Amendment)) Order 2017

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae erthygl 2 yn dwyn adrannau 20(1) ac 21(1) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 (“Deddf 2006”) i rym o ran Cymru. Mae erthygl 3 yn dwyn gweddill adrannau 20 ac 21 o Ddeddf 2006 i rym yn llawn o ran Cymru. Mae'r adrannau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer edrych ar gofrestrau o dir comin a meysydd tref a phentref a ddelir gan awdurdodau cofrestru tiroedd comin yng Nghymru, a dogfennau eraill, ac ar gyfer gwneud copiâu swyddogol. Mae erthygl 4 yn cynnwys darpariaethau trosiannol.

Article 2 brings sections 20(1) and 21(1) of the Commons Act 2006 (“the 2006 Act”) into force in relation to Wales. Article 3 brings the remainder of sections 20 and 21 of the 2006 Act fully into force in relation to Wales. These sections make provision for the inspection of the registers of common land and town and village greens held by commons registration authorities in Wales, and other documents, and for the production of official copies. Article 4 contains transitional provisions.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn diwygio Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2017 (O.S. 2017/564 (Cy. 133) (C. 51)) er mwyn estyn cymhwysiad adrannau 19 a 22 o Ddeddf 2006, ac Atodlen 2 iddi. Mae adrannau 19 a 22 o Ddeddf 2006, ac Atodlen 2 iddi, yn ymwneud â chywiros cofrestrau ac â pheidio â chofrestru neu gam-gofrestru o dan Ddeddf 1965. Yn rhinwedd y diwygiad hwn, mae cychwyn adrannau 19 a 22 o Ddeddf 2006, ac Atodlen 2 iddi, wedi ei estyn i unrhyw ardal yng Nghymru pan fo, hyd nes yr amser y mae adran 1 o Ddeddf 2006 wedi ei chychwyn mewn cysylltiad â hi, Ddeddf Cofrestru Tiroedd Comin 1965 yn cael effaith o hyd ar gofrestrriad. Mae'r estyniad hwn o gymhwysiad adrannau 19 a 22 o Ddeddf 2006, ac Atodlen 2 iddi, yn cael effaith o 20 Medi 2017.

The Order also amends the Commons Act 2006 (Commencement No. 4) (Wales) Order 2017 (S.I. 2017/564 (W. 133) (C. 51)) so as to extend the application of sections 19 and 22 of, and Schedule 2 to, the 2006 Act. Sections 19 and 22 of, and Schedule 2 to, the 2006 Act relate to the correction of registers and to non-registration or mistaken registration under the 1965 Act. By virtue of this amendment, the commencement of sections 19 and 22 of, and Schedule 2 to, the 2006 Act is extended to any area in Wales where, until such time as section 1 of the 2006 Act is commenced in respect of it, registration is still effected under the Commons Registration Act 1965. This extension of the application of sections 19 and 22 of, and Schedule 2 to, the 2006 Act has effect from 20 September 2017.

Gellir cael gwybodaeth bellach am y darpariaethau y daw'r Gorchymyn hwn â hwy i rym yn y Nodiadau Esboniadol i Ddeddf 2006 y gellir eu gweld yn www.legislation.gov.uk.

Further information on the provisions brought into force by this Order can be found in the Explanatory Notes to the 2006 Act, which can be viewed at www.legislation.gov.uk.

**NODYN YNGHYLCH GORCHMYNION
CYCHWYN CYNHARACH**

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2006 wedi eu dwyn i rym o ran Cymru drwy orchmynion cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

**NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT
ORDERS**

(This note is not part of the Order)

The following provisions of the 2006 Act have been brought into force in relation to Wales by commencement orders made before the date of this Order:

<i>Y ddarpariaeth</i>	<i>Y dyddiad cychwyn</i>	<i>Rhif O.S.</i>	<i>Provision</i>	<i>Date of Commencement</i>	<i>S.I. No.</i>
Adran 3(5) – at ddibenion penodol	12 Awst 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Section 3(5) – for certain purposes	12 August 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Adran 4	6 Medi 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Section 4	6 September 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Adran 5	6 Medi 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Section 5	6 September 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Adran 6(4) – at ddibenion penodol	12 Awst 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Section 6(4) – for certain purposes	12 August 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Adran 7(4) – at ddibenion penodol	12 Awst 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Section 7(4) – for certain purposes	12 August 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Adran 8(1), (2) – at ddibenion penodol	12 Awst 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Section 8(1), (2) – for certain purposes	12 August 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Adran 11(5), (6) – at ddibenion penodol	12 Awst 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Section 11(5), (6) – for certain purposes	12 August 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Adran 12(a) – at ddibenion penodol	12 Awst 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Section 12(a) – for certain purposes	12 August 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Adran 13(1)(a) – at ddibenion penodol	12 Awst 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Section 13(1)(a) – for certain purposes	12 August 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Adran 14 – at ddibenion penodol	12 Awst 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Section 14 – for certain purposes	12 August 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Adran 15	6 Medi 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Section 15	6 September 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Adran 16	1 Ebrill 2012	2012/739 (Cy. 99) (C. 19)	Section 16	1 April 2012	2012/739 (W. 99) (C. 19)
Adran 17(1) i (2) a (4) i (9)	1 Ebrill 2012	2012/739 (Cy. 99) (C. 19)	Section 17(1) to (2) and (4) to (9)	1 April 2012	2012/739 (W. 99) (C. 19)
Adran 17(3), (10) – at ddibenion penodol	12 Awst 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Section 17(3), (10) – for certain purposes	12 August 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)

Adran 17(3), (10) – i'r graddau nad yw eisoes mewn grym	1 Ebrill 2012	2012/739 (Cy. 99) (C. 19)	Section 17(3), (10) – so far as not already in force	1 April 2012	2012/739 (W. 99) (C. 19)
Adran 19(1) i (5) a (7)	5 Mai 2017	2017/564 (Cy. 133) (C. 51)	Section 19(1) to (5) and (7)	5 May 2017	2017/564 (W. 133) (C. 51)
Adran 19(6) – at ddibenion penodol	12 Awst 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Section 19(6) – for certain purposes	12 August 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Adran 19(6) – i'r graddau nad yw eisoes mewn grym	5 Mai 2017	2017/564 (Cy. 133) (C. 51)	Section 19(6) – so far as not already in force	5 May 2017	2017/564 (W. 133) (C. 51)
Adran 20(2), (3) – at ddibenion penodol	12 Awst 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Section 20(2), (3) – for certain purposes	12 August 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Adran 21(2), (3) – at ddibenion penodol	12 Awst 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Section 21(2), (3) – for certain purposes	12 August 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Adran 22 – at ddibenion penodol	12 Awst 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Section 22 – for certain purposes	12 August 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Adran 22 – i'r graddau nad yw eisoes mewn grym	5 Mai 2017	2017/564 (Cy. 133) (C. 51)	Section 22 – so far as not already in force	5 May 2017	2017/564 (W. 133) (C. 51)
Adran 23 – at ddibenion penodol	12 Awst 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Section 23 – for certain purposes	12 August 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Adran 23 – at ddibenion penodol	6 Medi 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Section 23 – for certain purposes	6 September 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Adran 24 – at ddibenion penodol	12 Awst 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Section 24 – for certain purposes	12 August 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Adran 24	6 Medi 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Section 24	6 September 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Adran 25 – at ddibenion penodol	12 Awst 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Section 25 – for certain purposes	12 August 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Adran 29(1), (6) – at ddibenion penodol	12 Awst 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Section 29(1), (6) – for certain purposes	12 August 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Adran 31(6)(a) – at ddibenion penodol	12 Awst 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Section 31(6)(a) – for certain purposes	12 August 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Adran 38	1 Ebrill 2012	2012/739 (Cy. 99) (C. 19)	Section 38	1 April 2012	2012/739 (W. 99) (C. 19)
Adran 39(1) i (5) a (7)	1 Ebrill 2012	2012/739 (Cy. 99) (C. 19)	Section 39(1) to (5) and (7)	1 April 2012	2012/739 (W. 99) (C. 19)

Adran 39(6) – at ddibenion penodol	12 Awst 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Section 39(6) – for certain purposes	12 August 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Adran 39(6) – i’r graddau nad yw eisoes mewn grym	1 Ebrill 2012	2012/739 (Cy. 99) (C. 19)	Section 39(6) – so far as not already in force	1 April 2012	2012/739 (W. 99) (C. 19)
Adran 40 – at ddibenion penodol	12 Awst 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Section 40 – for certain purposes	12 August 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Adran 40 – i’r graddau nad yw eisoes mewn grym	1 Ebrill 2012	2012/739 (Cy. 99) (C. 19)	Section 40 – so far as not already in force	1 April 2012	2012/739 (W. 99) (C. 19)
Adran 41	1 Ebrill 2012	2012/739 (Cy. 99) (C. 19)	Section 41	1 April 2012	2012/739 (W. 99) (C. 19)
Adran 42(1) i (3) a (5)	1 Ebrill 2012	2012/739 (Cy. 99) (C. 19)	Section 42(1) to (3) and (5)	1 April 2012	2012/739 (W. 99) (C. 19)
Adran 42(4) – at ddibenion penodol	12 Awst 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Section 42(4) – for certain purposes	12 August 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Adran 42(4) – i’r graddau nad yw eisoes mewn grym	1 Ebrill 2012	2012/739 (Cy. 99) (C. 19)	Section 42(4) – so far as not already in force	1 April 2012	2012/739 (W. 99) (C. 19)
Adran 43 – at ddibenion penodol	12 Awst 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Section 43 – for certain purposes	12 August 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Adran 43 – i’r graddau nad yw eisoes mewn grym	1 Ebrill 2012	2012/739 (Cy. 99) (C. 19)	Section 43 – so far as not already in force	1 April 2012	2012/739 (W. 99) (C. 19)
Adran 44 – at ddibenion penodol	12 Awst 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Section 44 – for certain purposes	12 August 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Adran 44 – at ddibenion penodol	6 Medi 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Section 44 - for certain purposes	6 September 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Adran 44 – i’r graddau nad yw eisoes mewn grym	1 Ebrill 2012	2012/739 (Cy. 99) (C. 19)	Section 44 – so far as not already in force	1 April 2012	2012/739 (W. 99) (C. 19)
Adran 45	6 Medi 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Section 45	6 September 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Adran 46	1 Ebrill 2012	2012/806 (Cy. 113) (C. 21)	Section 46	1 April 2012	2012/806 (W. 113) (C. 21)
Adran 47	6 Medi 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Section 47	6 September 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Adran 48	1 Ebrill 2012	2012/739 (Cy. 99) (C. 19)	Section 48	1 April 2012	2012/739 (W. 99) (C. 19)

Adran 49	6 Medi 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Section 49	6 September 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Adran 50(1), (4) i (6) – at ddibenion penodol	12 Awst 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Section 50(1), (4) to (6) – for certain purposes	12 August 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Adran 51	6 Medi 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Section 51	6 September 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Adran 52 – at ddibenion penodol	6 Medi 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Section 52 – for certain purposes	6 September 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Adran 53 – at ddibenion penodol	6 Medi 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Section 53 – for certain purposes	6 September 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Adran 53 – at ddibenion penodol	1 Rhagfyr 2010	2010/2356 (C. 114)	Section 53 – for certain purposes	1 December 2010	2010/2356 (C. 114)
Adran 53 – at ddibenion penodol	1 Ebrill 2012	2012/739 (Cy. 99) (C. 19)	Section 53 – for certain purposes	1 April 2012	2012/739 (W. 99) (C. 19)
Atodlen 2, paragraffau 2(2)(d) a (3), 3(2)(e) a (3), 4(6), 5(3), 6(3), 7(3), 8(3), 9(4) a 10 – at ddibenion penodol	12 Awst 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Schedule 2, paragraphs 2(2)(d) and (3), 3(2)(e) and (3), 4(6), 5(3), 6(3), 7(3), 8(3), 9(4) and 10 – for certain purposes	12 August 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Atodlen 2, paragraffau 2(2)(d) a (3), 3(2)(e) a (3), 4(6), 5(3), 6(3), 7(3), 8(3), 9(4) a 10 – i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym	5 Mai 2017	2017/564 (Cy. 133) (C. 51)	Schedule 2, paragraphs 2(2)(d) and (3), 3(2)(e) and (3), 4(6), 5(3), 6(3), 7(3), 8(3), 9(4) and 10 – so far as not already in force	5 May 2017	2017/564 (W. 133) (C. 51)
Atodlen 2, paragraffau 1, 2(1) a (2)(a) i (c), 3(1) a (2)(a) i (d), 4(1) i (5), 5(1), 5(2), 6(1), 6(2), 7(1), 7(2), 8(1), 8(2) a 9(1) i (3)	5 Mai 2017	2017/564 (Cy. 133) (C. 51)	Schedule 2, paragraphs 1, 2(1) and (2)(a) to (c), 3(1) and (2)(a) to (d), 4(1) to (5), 5(1), 5(2), 6(1), 6(2), 7(1), 7(2), 8(1), 8(2) and 9(1) to (3)	5 May 2017	2017/564 (W. 133) (C. 51)
Atodlen 3, paragraffau 2(1), (5) a (6), 4, 5, 8(2) a (3) – at ddibenion penodol	12 Awst 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Schedule 3, paragraphs 2(1), (5) and (6), 4, 5, 8(2) and (3) – for certain purposes	12 August 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Atodlen 3, paragraff 9	6 Medi 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Schedule 3, paragraph 9	6 September 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Atodlen 4, paragraff 6	6 Medi 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Schedule 4, paragraph 6	6 September 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)

Atodlen 4, i'r graddau nad yw eisoes mewn grym	1 Ebrill 2012	2012/739 (Cy. 99) (C. 19)	Schedule 4, so far as not already in force	1 April 2012	2012/739 (W. 99) (C. 19)
Atodlen 5, paragraffau 4, 6(a), 7(1)(yn rhannol) a (5)	6 Medi 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Schedule 5, paragraphs 4, 6(a), 7(1)(in part) and (5)	6 September 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Atodlen 6, Rhan 1 yn rhannol	6 Medi 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Schedule 6, Part 1 in part	6 September 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Atodlen 6, Rhan 1 yn rhannol	1 Rhagfyr 2010	2010/2356 (C. 114)	Schedule 6, Part 1 in part	1 December 2010	2010/2356 (C. 114)
Atodlen 6, Rhan 2 yn rhannol	6 Medi 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Schedule 6, Part 2 in part	6 September 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Atodlen 6, Rhan 3 yn rhannol	6 Medi 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Schedule 6, Part 3 in part	6 September 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Atodlen 6, Rhan 5	6 Medi 2007	2007/2386 (Cy. 197) (C. 88)	Schedule 6, Part 5	6 September 2007	2007/2386 (W. 197) (C. 88)
Atodlen 6, Rhannau 2, 3 a 5, i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym	1 Ebrill 2012	2012/739 (Cy. 99) (C. 19)	Schedule 6, Parts 2, 3 and 5, so far as not already in force	1 April 2012	2012/739 (W. 99) (C. 19)

Gwnaed y Gorchymyn Cychwyn a ganlyn o dan Ddeddf 2006 gan yr Ysgrifennydd Gwladol o ran Lloegr a chan Weinidogion Cymru o ran Cymru—

Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 1 ac Arbedion (Cymru a Lloegr) a Chychwyn Rhif 5 (Lloegr) (Diwygio)) 2010 (O.S. 2010/2356) (C. 114)

The following Commencement Order has been made under the 2006 Act by the Secretary of State in relation to England and by the Welsh Ministers in relation to Wales—

The Commons Act 2006 (Commencement No. 1 and Savings (England and Wales) and Commencement No. 5 (England) (Amendment)) Order 2010 (S.I. 2010/2356) (C. 114)

Gwnaed y Gorchymynion Cychwyn a ganlyn o dan Ddeddf 2006 gan yr Ysgrifennydd Gwladol o ran Lloegr—

Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 1, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Lloegr) 2006 (O.S. 2006/2504) (C. 84)

Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Lloegr) 2007 (O.S. 2007/456) (C. 17)

Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 3, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Lloegr) 2007 (O.S. 2007/2584) (C. 98)

Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 4 ac Arbedion) (Lloegr) 2008 (O.S. 2008/1960) (C. 94)

The following Commencement Orders have been made under the 2006 Act by the Secretary of State in relation to England—

The Commons Act 2006 (Commencement No. 1, Transitional Provisions and Savings) (England) Order 2006 (S.I. 2006/2504) (C. 84)

The Commons Act 2006 (Commencement No. 2, Transitional Provisions and Savings) (England) Order 2007 (S.I. 2007/456) (C. 17)

The Commons Act 2006 (Commencement No. 3, Transitional Provisions and Savings) (England) Order 2007 (S.I. 2007/2584) (C. 98)

The Commons Act 2006 (Commencement No. 4 and Savings) (England) Order 2008 (S.I. 2008/1960) (C. 94)

Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 5) (Lloegr) 2010 (O.S. 2010/61) (C. 10)

Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 6) (Lloegr) 2011 (O.S. 2011/2460) (C. 88)

Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 7, Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) (Lloegr) 2014 (O.S. 2014/3026) (C. 128)

Gweler hefyd adran 56 o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 ar gyfer y darpariaethau sy'n dod i rym heblaw drwy orchymyn cychwyn.

The Commons Act 2006 (Commencement No. 5) (England) Order 2010 (S.I. 2010/61) (C. 10)

The Commons Act 2006 (Commencement No. 6) (England) Order 2011 (S.I. 2011/2460) (C. 88)

The Commons Act 2006 (Commencement No. 7, Transitional and Savings Provisions) (England) Order 2014 (S.I. 2014/3026) (C. 128)

See also section 56 of the Commons Act 2006 for the provisions that come into force other than by way of commencement order.

2017 Rhif 933 (Cy. 227) (C. 80)

2017 No. 933 (W. 227) (C. 80)

TIROEDD COMIN, CYMRU

COMMONS, WALES

Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin
2006 (Cychwyn Rhif 5 a
Darpariaethau Trosiannol (Cymru)
a Chychwyn Rhif 4 (Cymru)
(Diwygio)) 2017

The Commons Act 2006
(Commencement No. 5 and
Transitional Provisions (Wales) and
Commencement No. 4 (Wales)
(Amendment)) Order 2017

Gwnaed

18 Medi 2017

Made

18 September 2017

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir i'r awdurdod cenedlaethol priodol gan adrannau 56(1) a 59(1) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006(1):

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of the powers conferred upon the appropriate national authority by sections 56(1) and 59(1) of the Commons Act 2006(1):

Enwi, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Trosiannol (Cymru) a Chychwyn Rhif 4 (Cymru) (Diwygio)) 2017.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “Deddf 1965” (“*the 1965 Act*”) yw Deddf Cofrestru Tiroedd Comin 1965(2); ac

ystyr “Deddf 2006” (“*the 2006 Act*”) yw Deddf Tiroedd Comin 2006.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Title, interpretation and application

1.—(1) The title of this Order is the Commons Act 2006 (Commencement No. 5 and Transitional Provisions (Wales) and Commencement No. 4 (Wales) (Amendment)) Order 2017.

(2) In this Order—

“the 1965 Act” (“*Deddf 1965*”) means the Commons Registration Act 1965(2); and

“the 2006 Act” (“*Deddf 2006*”) means the Commons Act 2006.

(3) This Order applies in relation to Wales.

Darpariaethau sy'n dod i rym

2. Daw'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2006 i rym ar 20 Medi 2017—

- (a) adran 20(1) (edrych ar wybodaeth); a
- (b) adran 21(1) (copïau swyddogol).

Provisions coming into force

2. The following provisions of the 2006 Act come into force on 20 September 2017—

- (a) section 20(1) (inspection); and
- (b) section 21(1) (official copies).

(1) 2006 p. 26; diwygiwyd adran 61(1) gan baragraff 9 o Atodlen 7 i Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc 4), ac mae'n diffinio “appropriate national authority” fel Gweinidogion Cymru o ran Cymru.

(2) 1965 p. 64.

(1) 2006 c. 26; section 61(1) was amended by Schedule 7, paragraph 9 of the Planning (Wales) Act 2015 (anaw 4), and defines “appropriate national authority” as the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) 1965 c. 64.

Darpariaethau sy'n dod i rym at bob diben sy'n weddill

3. Daw'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2006 i rym at bob diben sy'n weddill ar 20 Medi 2017—

- (a) adran 20(2) a (3) (edrych ar wybodaeth); a
- (b) adran 21(2) a (3) (copïau swyddogol).

Darpariaethau trosiannol

4.—(1) Mewn perthynas ag unrhyw ardal yng Nghymru, mae cyfeiriadau yn adrannau 20(1) ac 21(1) o Ddeddf 2006 at gofrestr o dir comin neu feysydd tref neu bentref, hyd nes y daw adran 1 o Ddeddf 2006 i rym mewn perthynas â'r ardal honno, i'w cymryd fel pe baent yn gyfeiriadau at gofrestr o'r fath a gynhelir o dan adrannau 1 a 3 o Ddeddf 1965.

(2) Mewn perthynas ag unrhyw ardal yng Nghymru, mae adrannau 20 ac 21 o Ddeddf 2006 ac unrhyw reoliadau a wneir o dan y darpariaethau hynny, hyd nes y daw adran 1 o Ddeddf 2006 i rym mewn perthynas â'r ardal honno, i'w cymhwyso fel pe bai, yn adran 61(2)(b) o Ddeddf 2006, "sections 1 and 3 of the Commons Registration Act 1965" wedi ei roi yn lle'r geiriau "Part 1 of this Act".

Diwygio Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2017

5.—(1) Gydag effaith o 20 Medi 2017, mae Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2017(1) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl erthygl 3 ychwaneger—

"Estyn cymhwysiad adrannau 19 a 22 o Ddeddf 2006 ac Atodlen 2 iddi

4.—(1) Mewn perthynas ag unrhyw ardal yng Nghymru, mae cyfeiriadau yn adrannau 19 a 22 o Ddeddf 2006, ac Atodlen 2 iddi, ac unrhyw reoliadau a wneir o dan y darpariaethau hynny, at gofrestr o dir comin neu feysydd tref neu bentref, hyd nes y daw adran 1 o Ddeddf 2006 i rym mewn perthynas â'r ardal honno, i'w cymryd fel pe baent yn gyfeiriadau at gofrestr o'r fath a gynhelir o dan adrannau 1 a 3 o Ddeddf 1965.

(2) Mewn perthynas ag unrhyw ardal yng Nghymru, mae adrannau 19 a 22 o Ddeddf 2006, ac Atodlen 2 iddi, ac unrhyw reoliadau a wneir o dan y darpariaethau hynny, hyd nes y daw adran 1 o Ddeddf 2006 i rym mewn perthynas â'r ardal honno, i'w cymhwyso fel pe

Provisions coming into force for all remaining purposes

3. The following provisions of the 2006 Act come into force for all remaining purposes on 20 September 2017—

- (a) section 20(2) and (3) (inspection); and
- (b) section 21(2) and (3) (official copies).

Transitional provisions

4.—(1) In relation to any area in Wales, references in sections 20(1) and 21(1) of the 2006 Act to a register of common land or town or village greens are, until the coming into force of section 1 of the 2006 Act in relation to that area, to be taken as references to such a register maintained under sections 1 and 3 of the 1965 Act.

(2) In relation to any area in Wales, sections 20 and 21 of the 2006 Act and any regulations made under those provisions are, until the coming into force of section 1 of the 2006 Act in relation to that area, to apply as if, in section 61(2)(b) of the 2006 Act, for the words "Part 1 of this Act" there were substituted "sections 1 and 3 of the Commons Registration Act 1965".

Amendment of the Commons Act 2006 (Commencement No. 4) (Wales) Order 2017

5.—(1) With effect from 20 September 2017, the Commons Act 2006 (Commencement No. 4) (Wales) Order 2017(1) is amended as follows.

(2) After article 3 add—

"Extension of application of sections 19 and 22 of, and Schedule 2 to, the 2006 Act

4.—(1) In relation to any area in Wales, references in sections 19 and 22 of, and Schedule 2 to, the 2006 Act and any regulations made under those provisions, to a register of common land or town or village greens are, until the coming into force of section 1 of the 2006 Act in relation to that area, to be taken as references to such a register maintained under sections 1 and 3 of the 1965 Act.

(2) In relation to any area in Wales, sections 19 and 22 of, and Schedule 2 to, the 2006 Act and any regulations made under those provisions, are, until the coming into force of section 1 of the 2006 Act in relation to that area, to apply as if, in section 61(2)(b) of the 2006

(1) O.S. 2017/564 (Cy. 133) (C. 51).

(1) S.I. 2017/564 (W. 133) (C. 51).

bai, yn adran 61(2)(b) o Ddeddf 2006, “sections 1 and 3 of the Commons Registration Act 1965” wedi ei roi yn lle’r geiriau “Part 1 of this Act”.”

Act, for the words “Part 1 of this Act” there were substituted “sections 1 and 3 of the Commons Registration Act 1965”.”

Lesley Griffiths

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

18 Medi 2017

©[©]Hawlfraint y Goron 2017

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs, one of the Welsh Ministers

18 September 2017

© Crown copyright 2017

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty’s Stationery Office and Queen’s Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2017 Rhif 933 (Cy. 227) (C. 80)

2017 No. 933 (W. 227) (C. 80)

TIROEDD COMIN, CYMRU

COMMONS, WALES

Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin
2006 (Cychwyn Rhif 5 a
Darpariaethau Trosiannol (Cymru)
a Chychwyn Rhif 4 (Cymru)
(Diwygio)) 2017

The Commons Act 2006
(Commencement No. 5 and
Transitional Provisions (Wales) and
Commencement No. 4 (Wales)
(Amendment)) Order 2017

£6.00

W201709191022 09/2017

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2017/933>

ISBN 978-0-348-20141-3



9 780348 201413